Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 22.12.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Cryfhau'r mesurau i ddiogelu Cymru wrth i don omicron daro

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd mesurau newydd yn cael eu cyflwyno o 6:00am Ddydd San Steffan ymlaen i helpu i ddiogelu Cymru. Mae'r rheoliadau yma yn seiliedig ar Lefel Rhybudd 2. Prif bwyntiau ydi:

- Gofyniad cyffredinol i gadw pellter cymdeithasol o 2m ym mhob lleoliad sydd ar agor i'r cyhoedd ac ym mhob gweithle, pan fo hynny'n rhesymol
- Bydd y rheol chwech o bobl mewn grym pan fydd pobl yn ymgynnull mewn lleoliadau a reoleiddir, megis lletygarwch, sinemâu a theatrau
- Bydd angen i bob lleoliad trwyddedig gymryd mesurau ychwanegol i ddiogelu cwsmeriaid a staff, gan gynnwys gwasanaeth gweini wrth y

bwrdd a chasglu manylion cyswllt i ddiben cyfundrefn canfod a darganfod
- Bydd gorchuddion wyneb yn ofynnol mewn lleoliadau lletygarwch bob amser heblaw pan fo pobl yn eistedd
- Ni fydd digwyddiadau mawr yn cael eu caniatáu o dan do nac yn yr awyr agored – Y nifer mwyaf o bobl a fydd yn cael ymgynnull mewn digwyddiad o dan do fydd 30 a 50 yn yr awyr agored
- Bydd yna eithriad ar gyfer chwaraeon tîm, gan ganiatáu hyd at 50 o wylwyr, ar ben y rhai sy’n cymryd rhan. Bydd yna eithriad hefyd ar gyfer digwyddiadau sy’n cynnwys plant

Bydd £120m ar gael i glybiau nos a busnesau manwerthu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth y mae’r newid hwn i Lefel Rhybudd 2 yn effeithio arnyn nhw. Cyhoeddir manylion pellach gan Llywodraeth Cymru yfory, 23 Rhagfyr 2021, a byddwn yn gyrru bwletin allan yfory parthed prif bwyntiau y datganiad.

Bydd y mesurau canlynol, a gyhoeddwyd wythnos diwethaf, bellach yn dod i rym am 6:00am Dydd Sant Steffan:

- Bydd set newydd o fesurau rhesymol ar gyfer busnesau a gwasanaethau, gan gynnwys rheol newydd ar gadw pellter cymdeithasol o 2m. Bydd angen i siopau, busnesau a gweithleoedd wneud newidiadau, gan gynnwys mesurau ychwanegol, megis systemau unffordd a rhwystrau corfforol
- Bydd rhaid i glybiau nos gau

I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i: https://llyw.cymru/cryfhaur-mesurau-i-ddiogelu-cymru-wrth-i-don-omicron-daro

Mae crynodeb o reoliadau Lefel Rhybudd 2 wedi eu diweddaru ar gael ar: https://llyw.cymru/lefel-rhybudd-2-crynodeb

## ARIANNU: Sefydlu Cronfa Sefydlogrwydd Diwylliannol y Gaeaf gwerth £5.25m

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn sicrhau bod £5.25m ar gael i gynorthwyo sefydliadau celfyddydol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a

sinemâu annibynnol Cymru sydd mewn perygl o gau, neu y bydd swyddi'n cael eu colli, oni bai bod cymorth pellach yn cael ei ddarparu. Rhaid i'r risg hon fod o ganlyniad uniongyrchol i effaith barhaus Covid-19. Bydd y gronfa, a fydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Hydref 2021 a 31 Mawrth 2022, yn agor ar gyfer ceisiadau ar 12 Ionawr 2022, a bydd angen i ymgeiswyr fod wedi cyflwyno cais ar-lein erbyn y dyddiad cau o 5:00pm 26 Ionawr 2022. Ar gyfer y datganiad llawn, ewch i:

https://llyw.cymru/sefydlu-cronfa-sefydlogrwydd-diwylliannol-y-gaeaf-gwerth-525m

# COVID-19: Profion Llif Unffordd – LFT

Anogir pawb i gymryd prawf llif unffordd (LFT) cyn cymysgu ac eraill. Mae profion llif unffordd ar gael i rai sydd heb symptomau coronafeirws a gallwch chi neu eich staff gasglu prawf am ddim o sawl man casglu yng Ngwynedd, mae gwybodaeth am rhain ar:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Coronafeirws/Prawf-Covid-19.aspx

Mae gwybodaeth ddefnyddiol am y defnydd o LFTs ar gael ar:

https://llyw.cymru/profion-llif-unffordd-covid-19-ar-gyfer-pobl-heb-symptomau

Mae gwybodaeth am drefnu prawf PCR COVID-19 i'r rhai efo symptomau coronafeirws ar:

https://bipbc.gig.cymru/covid-19/profi-covid-19/trefnwch-brawf-covid-19/

# COVID-19: Canllawiau gofal plant a gwaith chwarae: coronafeirws

Mae canllawiau wedi eu diweddaru ar sut i baratoi eich gwasanaeth gofal plant i ganiatáu i fwy o blant fynychu, a'u diogelu nhw a'ch staff rhag y coronafeirws ar gael ar:

https://llyw.cymru/canllawiau-gofal-plant-gwaith-chwarae-coronafeirws

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru